

OWEN, ROBERT (BOB OWEN, Croesor; 1885 - 1962), hanesydd, llyfrbryf ac achyddwr

Enw: Robert Owen
Dyddiad geni: 1885
Dyddiad marw: 1962
Priod: Nell Owen (née Jones)
Rhiant: Jane Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd, llyfrbryf ac achyddwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Dyfed Oswald Evans

Ganwyd ym Mhen-y-parc, (Twillwenci ar lafar), Llanfrothen, Meirionnydd, 8 Mai 1885 [yn fab i Jane Owen yn ôl llawysgrif LIGC 19295B], a'i fagu gan ei nain, Ann Owen, merch i wehydd o Aberffraw, Môn. Gadawodd ysgol elfennol Llanfrothen yn 13 oed i fynd yn was bach ar fferm Plas Brondanw. Bu'n gweini ar ffermydd yn yr ardal am dair blynedd cyn cael swydd yn glerc yn chwarel Parc a Chroesor. Treuliodd 30 mlynedd yno hyd 30 Ionawr 1931 pan gaeodd y chwarel oherwydd dirwasgiad yn y fasnach lechi. Wedi cyfnod o ddwy flynedd a hanner yn ddi-waith fe'i penodwyd yn drefnydd i Gyngor Sir Gaernarfon ac yna'n ddarlithydd gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr.

Y dylanwad pennaf arno'n addysgol fu troi ymysg dynion gwybodus a diwylliedig yn swyddfa'r chwarel ac yno y cydiodd ynddo yr ysfa i chwilota. Casglodd lyfrgell enfawr a ledaenai i bron bob ystafell yn ei gartref. Daeth i'r amlwg yn arbennig ar bwys ei golofn wythnosol yn y *Genedl Gymreig*, ' Lloffion Bob Owen ', 1929-37. Cyfrannodd yn helaeth i amryw byd o newyddiaduron a chryn ugain o wahanol gylchgronau. Bu'n fuddugol hefyd ar draethodau swmpus yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys un o tuag 800 o dudalennau ffwlgap mewn ysgrifen fân neu wedi ei deipio'n glòs ar ymfudiadau o Gymru i Daleithiau Unedig America rhwng 1760 ac 1860, a ' Diwydiannau coll - ardal y ddwy afon, Dwyrdd a Glaslyn ', a gyhoeddwyd yn gyfrol yn 1943.

Ystyriai ysgolheigion ef yn chilotwr gwyddonol, yn achyddwr o bwys ac yn awdurdod ar hanes Cymry America. Dyfernydd iddo radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru (yr ieuengaf erioed yn 47 oed) a'r O.B.E. yn ddiweddarach am ei gyfraniad i hanes a llenyddiaeth Cymru.

Priododd ym mis Mehefin 1923 â Nel Jones, merch o Gaeathro a gwnaethant eu cartref yn Ael-y-bryn, Croesor. Ganwyd iddynt ddwy ferch a mab. Yr oedd yn ddarlithydd poblogaidd ryfeddol ymhob rhan o Gymru a thros y ffin, mewn cymdeithasau Cymraeg. Oherwydd ei ddiddordeb mewn pobl a'u hachau tueddai i godi ysgyfarnogod a mynd ar eu trywydd wrth ddarlithio. Fe'i cyhuddid hefyd o 'ddryllio delwau' oherwydd rhai sylwadau a wnâi am bobl fel Mary Jones o'r Bala a [John Elias](#) o Fôn. Daliai ef, fodd bynnag, iddo godi llawer mwy o ddelwau nag a ddrylliodd.

Yr oedd yn bersonoliaeth liwgar a thanllyd eithriadol, yn rhyferthwy o fywyd, ac yn sgîl ei hynodrwydd mewn sawl cyfeiriad fe dyfodd yn gymeriad chwedlonol yn ei oes ei hun. Bu farw 30 Ebrill 1962 a'i gladdu ym Mynwent Newydd Llanfrothen.

Awdur

Dyfed Oswald Evans

Ffynonellau

Dyfed Evans, *Bywyd Bob Owen* (1977) (1977)

Robin Williams, *Y Tri Bob* (Llandysul 1970) (1970)

LIGC 19295B

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Papurau Bob Owen, Croesor](#)

Wikidata: [Q28360717](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

